

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Hydref 1af 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, October 1st 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Caerwyn Owen, Gwyn James, Melva Phillips (Cadair), Gareth Evans, Teifi Davies, Walwyn Jones, Elen Mathias.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Jonathan Rees, William Anwyl, Delfryn Owens, Barri Davies.

2 Materion Personol/Personal Matters

Dim Byd Perthnasol/*Nothing Relevant*

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 3/9/24

Cynnig gan Teifi eu bod yn gywir a'i eilio gan Gareth.

Motioned to be correct by Teifi and seconded by Gareth.

4 Materion Yn Codi/Matters Arising

i) Cyfrifon y Cyngor/*Council Accounts*

Mewn ymateb i'r angen am gyflwyno'r cyfrifon i Archwilio Cymru erbyn Hydref 20ed adroddodd y Clerc ar y camau diweddaraf i gyrraedd y nod. Y newyddion cadarnhaol yw fod DMB Davies yn medru cadarnhau y dylent fod yn barod erbyn Hydref 14eg. Yn y cyfamser nododd y Clerc ei fod wedi cyfarfod â'r cyn- Glerc gan lwyddo i grynhoi cyfrifon 2023-24. Bydd angen cyfarfod arall i gwblhau'r holl waith papur atodol ond wedi hynny bydd modd cyflwyno'r holl gyfrifon yr un pryd.

Cymeradwyodd yr aelodau y trefniant hwn. Y cam olaf fydd galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon yn ystod yr wythnos Hydref 14-18.

Derbyniwyd yr argmhelliad hwn gan yr aelodau.

In response to the October 20th deadline set by Audit Wales to submit the accounts the Clerk outlined the latest developments. The good news is that DMB Davies confirmed they should be ready by October 14th. In the meantime the Clerk has convened a meeting with the former Clerk to prepare the accounts for 2023-24.

Another meeting will be needed to complete additional paper work, but as a result all accounts may be submitted simultaneously. The members recommended this arrangement. Finally a special meeting of the Council will be convened in order to ratify the accounts during the week October 14-18. This was fully supported by the members.

ii) Tai Bach Tresaith/*Tresaith Toilets*

Ar ddechrau'r drafodaeth dywedodd Gwyn fod cyfarfod diweddaraf Pwyllgor Lles Tresaith wedi mynegi ystyriaeth, ar y cyd gyda busnesau Tresaith, i gefnogi'n ariannol pe bai'r Cyngor Cymuned yn derbyn y cyfrifoldeb o'u cynnal. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch goblygiadau ariannol derbyn y cyfrifoldeb hwn ar aelwydydd y plwyf hwn. Teimlid bod yr amserlen a natur y cais yn rhoi pwysau annheg ar gynghorau unigol. Cwyn arall oedd y diffyg gwybodaeth a dderbyniwyd am gost cynnal a chadw'r cyfleusterau hyn. Ystyriaeth arall a drafodwyd oedd cynnal llai o doiledau yn ystod y gaeaf er mwyn lleihau'r costau. Yn yr un modd codwyd y

draw cytunodd yr aelodau yn unfrydol i ohirio unrhyw benderfyniad terfynol ar sail diffyg gwybodaeth a'r angen am gyfarwyddyd pellach. Dywedodd Gwyn ei fod yn awyddus i godi'r mater hwn mewn cyfarfod ffurfiol yn Aberteifi ar Dachwedd 28ain. *It was noted that Tresaith Welfare Committee had considered financial assistance, with local businesses, if Penbryn Council were to accept the responsibility of maintaining the toilets. However, concerns were raised regarding the financial implications on the parishioners if such an undertaking were accepted. The nature of the offer and the timetable were deemed unfair on individual councils. Another concern was the lack of information received regarding accepting the proposal. Alternative means considered were maintaining fewer toilets during the winter or restricting the full use of the toilets to summer school holidays only. It was finally agreed unanimously to postpone a final decision due to a lack of information and the need for further guidance. Gwyn stated his desire to raise this issue at a formal meeting in Cardigan on November 28th.*

5 Cyllid/Finance

i) Balans/Balance

Balans Blaenorol/Previous Balance £11393.69

Taliadau a gymeradwyd/Approved Payments

Ad-dalu Delfryn/Reimburse Delfryn £90.00

Balans Newydd/New Balance £11303.90

ii) Cymeradwyo ad-daliad Delfryn/Reimburse Delfryn

Taliad Bois y Mowo/Payment to Bois y Mowo £90.00

iii) Ffurflenni Llofnodwyr Newydd/New Signatories Forms

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn ffurflenni oddi wrth **Bank of Scotland** er mwyn ychwanegu at y tri llofnodwr presennol sydd gan y Cyngor. Derbyniwyd yr angen am ragor o lofnodwyr cymwys yn y dyfodol.

*The Clerk stated that he had received forms from **Bank of Scotland** in order to increase the number of official signatories within the membership. The need to add to the present three signatories was accepted unanimously.*

6 Cynllunio/Planning

i) A240684 Bryngolau, Tresaith

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

ii) A240603 Berwyn Bank, Tresaith

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

7 Gohebiaeth/Correspondence

i) Neuadd Goffa Penbryn/Penbryn Memorial Hall

Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Bwyllgor y Neuadd yn diolch am y rhodd ddiweddar o £2000 tuag at y gwaith o gynnal a chadw'r adeilad.

A letter of thanks was received from the Hall Committee for our recent donation of £2000 towards the cost of maintaining the building.

8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) Cais Graham am destun/*Graham's request for further text*
Cafwyd cais ganddo am ragor o destun, yn enwedig pwt o hanes pentrefi'r plwyf, er mwyn datblygu gwefan y Cyngor Cymuned ymhellach.
Graham requested further text, especially a brief history of the villages within the parish, in order to further develop the Council's website.
- ii) Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Thraeth Penbryn/*The National Trust and Penbryn Beach*
Yn dilyn digwyddiadau diweddar ar draeth Penbryn pan adawyd sbwriel gan ymwelwyr nododd y Clerc ei fwriad i ohebu â'r Ymddiriedolaeth. Ym marn yr aelodau, yr oedd angen gofyn a oedd arwyddion digon eglur a phendant yn nodi beth a ganiateir i'w gynnal ar y traeth. Cytunodd y Clerc i gyfleu'r sylwadau hyn yn yr ohebiaeth.
Following recent events held at Penbryn Beach when rubbish was strewn on the beach the Clerk stated his intention of corresponding with the National Trust. According to the members, it was necessary to clarify whether sufficiently clear signage stating what exactly can be held there is exhibited. The Clerk agreed to convey these points in the correspondence.
- iii) Glendid Arosfannau Bysiau/*Cleanness of Bus Stops*
Gofynnodd Teifi pwy sydd yn gyfrifol am lendid arosfannau bysiau gan gyfeirio at yr angen am lanhau ambell arosfan yn yr ardal. Nodwyd gan nifer mai Cyngorau Cymuned fwy na thebyg sydd yn gyfrifol am y gwaith hwn. Gofynnwyd a fyddai yna arian dros ben rywbryd i ymgymryd â'r gorchwyl uchod. Nododd y Clerc y byddai'n cadw cofnod o hynny wrth i'r sefyllfa ariannol ddod yn fwy eglur.
Teifi asked who was responsible for the upkeep of bus stops referring to the need for such work on some stops. Many believed it to be the responsibility of the Community Council. It was asked whether any left over money would be available to undertake such work. The Clerk noted that he would keep it in mind as the financial situation becomes clearer.
- iv) Torri cloddiau rhwng Gellideg a Fferm y Plas, Glynarthen/*Hedge Cutting between Gellideg and Fferm y Plas, Glynarthen*
Nododd Melva yr angen am dorri cloddiau ar hyd yr heol rhwng y ddwy fferm uchod. Mae un ochr yn cael ei thorri, ond nid yr ochr arall gan wneud heol gul yn gulach byth a'r tyfiant yn dechrau mynd yn wyllt. Cytunodd y Clerc i gysylltu â gwasanaeth Clic Ceredigion.
Melva noted the need to cut the hedges along the road between the above mentioned farms. One side of the hedge is cut regularly but not the other making a narrow lane even narrower. The Clerk agreed to refer the enquiry to the Clic service.
- v) Diogelwch ffyrdd y fro/*Safety on the area's roads*
Tynnodd Teifi sylw'r aelodau at enghreifftiau o yrru anghyfrifol ar hyd yr A487 ger fferm Temple Bar. Dim ond trwy lwc na ddigwyddodd unrhyw ddamwain ddifrifol yn ei sgil. Mewn ymateb i hynny, ychwanegodd Gareth fod angen cadw'r terfyn cyflymder o 40 mya i'r de heibio i sgwâr Gogerddan gan mai yn y fan hon mae damweiniau yn tueddu i ddigwydd. Nododd yn ogystal fod angen terfyn cyflymder o 20 mya ar y ffordd sydd yn gadael yr A487 i gyfeiriad Wynnstay yn Nhanygroes. Mae nifer o dai wedi'u codi ar hyd y ffordd yn ddiweddar.
Teifi drew the members' attention to examples of irresponsible driving along the A487 near Temple Bar. Only by pure chance were serious accidents averted. In

response, Gareth added that the 40 mph speed limit from Tanygroes should be extended beyond Gogerddan Square, as most accidents occur in this vicinity. He also proposed that a 20 mph limit be imposed on the road leading to Wynnstay off the A487 at Tanygroes. A number of houses have been built here recently.

9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Tachwedd 5ed 2024 am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday, November 5th 2024 at 7.30 p.m.